

Gofal plant a chyflogaeth rhieni: y pandemig a thu hwnt

Crynodeb o'r ymgysylltiad

Dydd Llun, 29 Tachwedd 2021

Cefndir

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i '*Ofal plant a chyflogaeth rhieni: y pandemig a thu hwnt*', cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu, gan gynnwys cyfres o grwpiau ffocws gyda rhieni o bob rhan o Gymru.

Cynhaliwyd cyfres o ddeg grŵp ffocws a dau gyfweiliad un i un rhwng 1 Tachwedd a 19 Tachwedd 2021. Daeth un cyfraniad ysgrifenedig i law gan gyfranogwr wnaeth orfod tynnu'n ôl o grŵp ffocws. At ei gilydd, rhannodd 59 o gyfranogwyr ar draws holl ranbarthau'r Senedd - mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd - eu barn.

Cyfranogwyr

Er bod mwyafrif y cyfranogwyr yn rhieni, cyfrannodd nifer fach mewn rhinwedd broffesiynol fel staff sy'n gweithio mewn lleoliad gofal plant neu gyda rhieni.

Roedd natur y cyfranogwyr yn amrywio ac yn cynnwys aelwydydd un rhiant; rhieni sy'n cael budd-daliadau; rhieni â materion iechyd a neu blant ag anghenion ychwanegol; rhieni sy'n lleiafrifoedd ethnig; rhieni o gefndiroedd ffydd; rhieni o gefndiroedd mudol a rhieni nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Roedd statws cyflogaeth cyfranogwyr hefyd yn amrywio gyda rhieni'n gweithio yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector; rhieni â chontractau cyflogaeth gwahanol gan gynnwys contractau amser llawn, rhan-amser ac oriau



sero; rhieni a oedd yn hunangyflogedig, rhieni a oedd yn ddi-waith; rhieni â mwy nag un swydd, rhieni sydd ar absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth ar hyn o bryd a rhieni sy'n gweithio ym maes gofal plant.

Roedd natur y ddarpariaeth gofal plant a gyrchwyd gan gyfranogwyr yn amrywio ac yn cynnwys darpariaeth gofal plant awdurdod lleol, meithrinfa breifat, gwarchodwr plant, darpariaeth yn yr ysgol a/neu ffrindiau a theulu.

Cafwyd afael ar gyfranogwyr trwy nifer o grwpiau a sefydliadau cymunedol gan gynnwys Gweithredu yng Nghaerau a Threlái - ACE, Sefydliad Bevan, y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, Chwarae Teg, Cwmni Buddiannau Cymunedol CLPW, Pobl Portiwgaleg ar wasgar o Gymru, *Fair Treatment for the Women of Wales*, *Gingerbread*, Cyngor Rhyngffydd Cymru, Mudiad Meithrin, rhieni dros addysg cyfrwng Cymraeg, Y Gymdeithas Broffesiynol er Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY), *Single Parent Wellbeing*, *South Riverside Community Development Centre*, Trefnu Cymunedol Cymru, *Tots Play*, *Voices from Care Cymru*, *Women Connect First* a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

Trefn

Cynhaliwyd wyth grŵp ffocws a dau gyfweiliad un i un ar-lein ar Microsoft Teams neu Zoom. Cynhaliwyd dau grŵp ffocws mewn person.

Roedd fformat yr ymgysylltu yn gymaradwy i raddau helaeth rhwng sesiynau, ond gydag ychydig o amrywiaeth i ddiwallu anghenion cyfranogwyr ac i ddarparu ar gyfer absenoldebau hwyr. Trafodwyd y themâu a ganlyn (gyda rhywfaint o amrywiad).

- 1.** Profiad o ddychwelyd o absenoldeb mamolaeth/tadolaeth neu gyfnod o ddiweithdra.
- 2.** Pethau allweddol i'w hystyried wrth ddewis darparwr gofal plant.
- 3.** Argaeledd gwybodaeth a chyngor ar ddarpariaeth gofal plant.
- 4.** Y graddau y mae trefniadau gofal plant yn diwallu anghenion rhieni ar hyn o bryd.
- 5.** Safbwyntiau ar y ddarpariaeth gofal plant bresennol/flaenorol a ddefnyddir ac effaith ar fywyd/cyflogaeth teulu.

6. Fforddiadwyedd gofal plant a mynediad at gymorth ariannol tuag at gostau gofal plant.
7. Cefnogaeth gan gyflogwyr.
8. Effaith y pandemig ar drefniadau gofal plant.
9. Pryderon ynghylch cyflogaeth a materion gofal plant yn y dyfodol.
10. Atebion o ran cefnogi rhieni i gael mynediad i fyd gwaith, cynnal y gyflogaeth neu wneud cynnydd yn y swydd a pha rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae yn hyn.

Daeth y themâu canlynol i'r amlwg yn sgil y trafodaethau. Mae nodiadau gair-am-air o bob sesiwn ar gael ar gais.

Dibynnu ar aelodau'r teulu am ofal plant

“Rwy’n cofio bod yn feichiog ac mae’n ofnadwy dweud... Dywedais wrth fy mam yng nghyfraith a fy mam; os na fyddwch yn gofalu am y babi hwn ddeuddydd yr wythnos, ni allaf fi wneud hyn, ni allaf gael y babi hwn... mae’n amser emosïynol iawn beth bynnag, ond ry’ch chi’n meddwl am gostau gofal plant pan fyddwch chi 10 wythnos yn feichiog.”

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 5, Caerdydd

Trafododd mwyafrif y cyfranogwyr rôl aelodau'r teulu – ac i raddau llai, ffrindiau – wrth ddiwallu anghenion gofal plant y gyfan gwbl neu’n rhannol. Cafodd gorddibyniaeth ar deulu ei briodoli i raddau helaeth i'r costau sylweddol a'r diffyg hyblygrwydd sy'n gysylltiedig â darpariaeth gofal plant mwy ffurfiol. Heb gefnogaeth deuluol, pwysleisiodd llawer o gyfranogwyr – yn enwedig rhieni sengl – na fyddai'n bosibl rheoli gofal plant a chyflogaeth.

“Mae fy chwaer wrthi’n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth ac mae ganddi ddau blentyn, ond ni fyddai’n werth iddi fynd i weithio pe bai’n rhaid iddi drefnu gofal plant i’w bechgyn. Mewn gwirionedd, felly, rwy’n gofalu am ei dau mab ddeuddydd yr wythnos er mwyn iddi allu mynd i'r gwaith.”

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 5, Caerffili

Cyfeiriodd nifer o gyfranogwyr at deimpladau o euogrwydd am orfod dibynnu ar deulu, a/neu mynegi ymdeimlad o lwc am fod mewn sefyllfa lle roedden nhw’n gallu gwneud hynny.

I'r gwrthwyneb, esboniodd rhai cyfranogwyr – yn enwedig y rhai o gefndiroedd mudol, er nad yn unig felly – nad yw dibynnu ar deulu am ofal plant yn opsiwn sydd ar gael iddyn nhw.

"...roedd gen i yrfa yn ôl yn Ne Affrica, ond pan ddes i yma roedd yn rhaid i mi ildio hynny er mwyn gallu gofalu am fy mhlant oherwydd nad oedd gen i deulu, dim ffrindiau ac oherwydd bod y costau gofal plant mor ddrud, fe fyddwn i yn y bôn bod yn gweithio er nwyn talu gofal plant..."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 10, Caerdydd

"Cefais fy magu mewn gofal. Does gen i ddim teulu... Dwyf fi ddim yn gweld fy rhieni biolegol ac ni chaniateir i'm plant eu gweld nhw yn ôl canllawiau gwasanaethau cymdeithasol."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws 9, Rhondda Cynon Taf

Fforddiadwyedd

"Rwy'n gwneud gwaith rhan-amser dri diwrnod yr wythnos, oherwydd roedd cost gofal plant pum diwrnod yr wythnos yn golygu nad oedd unrhyw bwynt imi fynd yn ôl."

Cyfranogwr 4, grŵp ffocws 3, Bro Morgannwg

Roedd effaith costau gofal plant yn thema a ddylanwadodd ar lawer o'r drafodaeth ar draws y rhaglen ymgysylltu. Fforddiadwyedd oedd y ffactor y cyfeiriodd cyfranogwyr ato gan amlaf wrth drafod y pethau allweddol y maen nhw'n eu hystyried ar gyfer dewis darpariaeth gofal plant.

Roedd consensws eang ymhlith cyfranogwyr o amrywiaeth o gefndiroedd bod gofal plant ffurfiol yn rhy ddrud, gydag un cyfranogwr yn disgrifio'r costau fel bod "y tu hwnt i fesur". Canolbwyntiodd llawer o'r drafodaeth ar effaith dreiddiol costau gofal plant ar faterion oedd yn cynnwys cyllideb yr aelwyd a hygyrchedd gwahanol fathau o ddarparwr gofal plant.

"...ar hyn o bryd, ni allaf gael morgais oherwydd bod benthycwyr yn dwyn fy mil gofal plant i ystyriaeth. Er fy mod yn ennill digon ar bapur ac yn gwybod y gallaf fforddio morgais... er fy mod yn cael swm tuag ato ar ffurf credydau treth, dy'n nhw ddim yn dwyn credydau treth i ystyriaeth. Maen nhw'n edrych ar fy ngwariant yn unig, felly mae wedi fy nghyfyngu o'r safbwynt hwnnw, oherwydd hoffwn allu darparu cartref sefydlog i'm plant..."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 6, Rhondda Cynon Taf

“Fy hen gymdogion; ymfudwyr cenhedlaeth gyntaf oedden nhw. Doedd ganddyn nhw'r un teulu arall yma ac roedd ganddyn nhw ddau o blant, ill dau o dan bump oed... yn y diwedd, gyda'r gost o roi'r ddau ohonyn nhw mewn meithrinfa... fe wnaethon nhw anfon un yn ôl i India i'r neiniau a theidiau ofalu amdani am wyth mis hyd nes bod y plentyn arall yn dechrau yn yr ysgol, er mwyn iddyn nhw allu fforddio byw.”

Cyfranogwr 7, grŵp ffocws 7, Caerdydd

Ystyriwyd bod fforddiadwyedd gofal plant yn ffactor allweddol i lawer wrth benderfynu ynghylch cyflogaeth – boed yn mynd i fyd gwaith, yn cynnal y gyflogaeth neu'n gwneud cynnydd yn y swydd. Mae'n bosibl y cafodd hynny ei amlygu fwyaf amlwg gan rai cyfranogwyr a wnaeth benderfyniad ymwybodol i beidio â dychwelyd i'r gwaith, oherwydd bod costau gofal plant yn golygu nad oedd yn ddichonadwy yn ariannol iddyn nhw wneud hynny.

At hynny, soniodd rhai cyfranogwyr am gostau gofal plant fel bod yn rhywbeth allweddol i'w hysgogi i ail-hyfforddi fel gwarchodwyr plant, a oedd yn caniatáu iddyn nhw ddiwallu eu hanghenion gofal plant tra hefyd yn ennill incwm.

“...unwaith i mi gael fy nhrydedd ferch, roeddwn i eisiau bod gartref, felly es i yn syth o gyfnod mamolaeth i fod yn warchodwr plant... ac roedd hynny am resymau ariannol fel y dywedais, dim ond achos costau gofal plant...”

Cyfranogwr 6, grŵp ffocws 2, Sir Ddinbych

Pethau allweddol eraill a ystyrir wrth ddewis darparwr gofal plant

Er bod fforddiadwyedd yn ffactor blaenllaw i fwyafrif y cyfranogwyr wrth drafod darpariaeth gofal plant, cafodd nifer o ffactorau eraill ddylanwad ar eu penderfyniad.

Ystyriwyd bod lleoliad y ddarpariaeth gofal plant – yn enwedig mewn perthynas â man cyflogaeth a/neu'r cartref – yn allweddol bwysig, gyda llawer yn cyfeirio at yr heriau logistaidd dyddiol yn sgil hynny.

“... Ni allaf ollwng (fy mhlentyn) i ffwrdd mewn clwb brecwast (yng Ngwenfô) tan 8:00am, ac rwy'n gweithio ym Mhontpennau ac yn dechrau am 8:30am. Bob dydd, felly, os oes unrhyw fath o straen yn codi yn y bore a dyw e ddim eisiau gwisgo ei hosan neu ddim eisiau bwyta ei frechwast, mae'n llanast llwyr... Rwy newydd orfod addasu fy holl oriau gwaith o amgylch gofal plant, oherwydd

mae'r feithrinfa'n cau am 3:15pm ar ddydd Mercher, 12:45pm ar ddydd Gwener, ac yna mae'n fater o warchodwyr plant ar ddiwrnodau gwahanol."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 1, Caerdydd

Roedd llawer o gyfranogwyr hefyd yn ystyried enw da darparwyr gofal plant wrth ystyried pa mor addas oedd y ddarpariaeth gofal plant. Roedd rhai yn dibynnu ar dafod leferydd gan deulu neu ffrindiau, tra bod eraill yn adolygu adroddiadau arolygu Estyn.

Cyfeiriodd nifer o gyfranogwyr at ystyriaethau o ran iaith hefyd fel bod yn ofyniad allweddol wrth nodi darpariaeth gofal plant addas. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos rhieni ar incwm isel a rhieni sengl.

"Pan oeddwn i'n chwilio am ofal plant roeddwn i eisiau rhywun a oedd yn siarad Cymraeg. Dwyf fi ddim yn siarad Cymraeg yn rhugl fy hun ond roedd hynny'n bwysig iawn pan oeddwn i'n chwilio am ofal plant, ac mewn gwirionedd ni allwn ddod o hyd i warchodwr plant a oedd yn siarad Cymraeg felly dyna pam aeth hi i feithrinfa."

Cyfranogwr 6, grŵp ffocws 2, Sir Ddinbych

Roedd trafodaeth ar anghenion iaith yng nghyd-destun gofal plant yn rhan annatod o drafodaeth ar briodoldeb diwylliannol y ddarpariaeth gofal plant. Codwyd pryderon gan nifer o gyfranogwyr bod darpariaeth o'r fath yn brin, ac yn aml nid yw darparwyr gofal plant presennol yn diwallu anghenion plant lleiafrifoedd ethnig yn benodol.

"Ydyn nhw'n deall fy nghrefydd? A ydyn nhw'n deall yr hyn y gall ac na all fy mhlentyn ei wneud? A ydyn nhw'n deall pa fwydydd y gallant ac na allant eu bwyta? Y peth i mi oedd gwallt fy mhlant, oherwydd mae gwallt du yn hollol wahanol i unrhyw beth arall... Rwy'n dysgu gofal plant fy hun nawr, felly rwy'n gwybod eu bod nhw'n dechrau dysgu llawer am ddiwylliant i weithwyr gofal plant a sut i edrych ar ôl plant o wahanol ddiwylliannau, ond mae rhieni'n dal i boeni amdano."

Cyfranogwr 7, grŵp ffocws 3, Caerdydd

"Byddaf yn ffodus i gael rhywun o fy niwylliant neu fy nghrefydd fy hun yn gofalu am fy mhlant, neu o leiaf i weld aelod o staff sy'n ethnig yn y feithrinfa honno yr es i iddi, felly o leiaf rwy'n teimlo'n dawel fy meddwl y byddan nhw'n deall rhai anghenion diwylliannol lle bo hynny'n bosibl."

Cyfranogwr 4, grŵp ffocws 3, Caerdydd

Tra bod rhai cyfranogwyr yn pwyso a mesur y ffactorau sydd bwysicaf iddyn nhw wrth ddewis darparwr gofal plant, dywedodd eraill nad oedd ganddyn nhw unrhyw ddewis. Tynnodd rhai cyfranogwyr sylw at y diffyg darpariaeth gofal plant sydd ar gael mewn ardaloedd ledled Cymru, er enghraifft Pen Llŷn, tra bod eraill wedi trafod adleoli er mwyn cael mynediad at ofal plant.

“Yn wreiddiol, roedd gennym feithrinfa ym Mhendyrys - caeodd honno a dim ond un gwarchodwr plant oedd yn gallu diwallu fy anghenion, a hynny dim ond hyd nes bod fy merch yn mynd i'r ysgol amser llawn. Unwaith iddi fynd i'r ysgol amser llawn, ni allai honno ddiwallu fy anghenion oherwydd na allai gludo'r plentyn i'r ysgol, oherwydd ei bod yn cludo plant i ysgol wahanol ac yna roedd yn rhaid i mi fynd ar ofyn ffrindiau gwahanol.”

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws 6, Rhondda Cynon Taf

Diffyg cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth

Gwnaeth mwyafrif y cyfranogwyr drafod y gefnogaeth - neu'r diffyg cefnogaeth - sydd ar gael i rieni, yn enwedig rhieni newydd, wrth wneud penderfyniadau am ofal plant. Yn ôl y mwyafrif o gyfranogwyr, roedd prinder y wybodaeth a oedd ar gael yn golygu bod gwneud penderfyniadau gwybodus am addasrwydd darpariaeth gofal plant, yn heriol.

“...Ry'n ni'n gwybod wrth ddewis ysgol, mae'r holl adroddiadau Ofsted hyn y gallwn ni edrych arnyn nhw ac nid wyf yn teimlo bod yr un math o wybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer gofal plant... dylai fod yr un mor bwysig oherwydd bod y blynyddoedd cynnar hynny o'r pwys mwyaf ar gyfer datblygiad plant...”

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 6, Rhondda Cynon Taf

Roedd yr anawsterau hyn yn arbennig o heriol i rieni â phlant ag anghenion ychwanegol. Rhannodd un rhiant ei phrofiad o geisio dod o hyd i ddarpariaeth addas ar gyfer ei merch awtistig, y gwrthodwyd lle iddi mewn clwb brechwast a chlwb ar ôl ysgol.

“Wrth iddi dyfu mae dod o hyd i ofal plant wedi tyfu'n fwy heriol... mae anghenion ychwanegol ynghlwm wrth anabledd. Does gan bawb ddim yr offer.”

Cyfranogwr 4, grŵp ffocws 10, Caerdydd

“Mae fy merch 8 mis oed wedi cael diagnosis o gyflwr niwrolegol sy'n cyfyngu ar ei bywyd, sy'n golygu ei bod yn ansefydlog iawn lawer o'r amser a bydd ganddi anabledau dysgu difrifol ac efallai na fydd hi byth yn cerdded, siarad neu hyd yn oed yn eistedd i fyny. Bydd ei bywyd hefyd yn fyrrach na'r hyn sy'n arferol. Rwy'n ôl yn y gwaith ddeuddydd yr wythnos ar hyn o bryd ond yn ôl amser llawn ym mis Ionawr ac mae'r feithrinfa a ddewiswyd gennym (prif ffrwd) yn ymwybodol o'i chyflwr. Maen nhw wedi cytuno y byddan nhw'n ei derbyn ond bydd yn rhaid iddyn nhw weld sut fydd pethau'n mynd. Os na allan nhw ymdopi â hi oherwydd eu cymarebau staff, yna bydd yn rhaid iddyn nhw gael y sgwrs honno â ni. Rwyf fi a'i thad fel ein gilydd wrth gam allweddol yn ein gyrfaedd felly nid yw'r un ohonom eisiau cymryd mwy o amser i ffwrdd. Rwy wedi cael addewid o ymwelydd iechyd anghenion arbennig er mwyn i mi allu trafod atgyfeiriadau i feithrinfa anghenion arbennig, neu gyllid 1-1 ar gyfer y feithrinfa o'n dewis, ond mae bron i ddau fis wedi mynd heibio ac nid wyf wedi clywed unrhyw beth.”

Cyfraniad ysgrifenedig gan riant, Caerdydd

Roedd tafod lleferydd gan deulu a ffrindiau dibynadwy, a safbwyntiau a rennir gan grwpiau ar y cyfryngau cymdeithasol i rieni, yn ddwy o'r sianelau y cyfeiriwyd atynt amlaf gan gyfranogwyr, wrth geisio gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant.

Y Cynnig Gofal Plant

Er bod cyfranogwyr yn rhannu barn gadarnhaol ar y Cynnig Gofal Plant a'i fuddiannau cysylltiedig, cododd rhai cyfranogwyr faterion o ran ei gwmpas. Roedd y materion hyn yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddwy agwedd.

Roedd yr agwedd gyntaf yn ymwneud â'r gofynion sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer cyrchu'r Cynnig Gofal Plant, gyda'r mwyafrif yn egluro y byddai gallu cyrchu'r Cynnig Gofal Plant yn gynharach o fudd i bob rhiant sy'n gweithio. Roedd yr ail agwedd yn ymwneud â dyrannu oriau, ond fe'i trafodwyd i raddau llai.

“Rwy o'r farn ei bod yn bwysig caniatáu darpariaeth gofal plant yn gynharach o lawer yn y siwrnai ar yr angen. Rwy'n credu os ydych chi'n cymryd dwy flynedd arall ar ben yr hyn a gymeroch yn barod ac yn aros hyd nes bod eich plentyn yn dair oed, ry'ch chi allan o'r gweithle i bob pwrpas, felly nid yw'n caniatáu ar gyfer gwneud cynnydd,, pa bynnag sector ry'ch chi'n gweithio ynddo.”

Cyfranogwr 5, grŵp ffocws 4, Gwynedd

“Mae fy mab yn dair oed. Rwy'n gweithio'n rhan-amser ar hyn o bryd ac mae [fy mab] yn mynd at ofalwr plant a gofal cofleidiol. Rwy felly'n defnyddio'r Cynnig

Gofal Plant, ond oherwydd bod yn rhaid i'r gwarchodwr plant hawlio am ddiwrnod llawn, er nad yw e gyda hi am ddiwrnod llawn, mae'n hawlio mwyafrif fy oriau felly mae'n rhaid i mi dalu tuag at y gofal yn ystod y dydd hefyd."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 1, Caerdydd

Esboniodd rhai cyfranogwyr hefyd nad oeddent nhw, fel rhieni newydd, yn ymwybodol i raddau helaeth o'r Cynnig Gofal Plant a'i feini prawf cymhwysedd. Yn wir, roedd gwahanol raddau o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith cyfranogwyr yn ystod grwpiau ffocws.

Cael mynediad at Dechrau'n Deg

"Mae'r holl ddadl ynghylch Dechrau'n Deg yn chwerthinllyd, oherwydd mae fy stryd yn cynnwys (teuluoedd) Dechrau'n Deg a'r rhai nad ydynt yn Dechrau'n Deg."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws 9, Rhondda Cynon Taf

"Mae gen i ffrind sy'n byw dwy stryd i ffwrdd oddi wrtha i sy'n cael mynd i Dechrau'n Deg ond nid wyf fi'n gallu gwneud oherwydd y loteri cod post. Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn deg oherwydd ry'n ni'n union yr un peth."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 5, Caerffili

Roedd cyfranogwyr mewn grwpiau ffocws sy'n cael mynediad at Dechrau'n Deg yn gadarnhaol, ar y cyfan, ynghylch ei fuddiannau gan esbonio bod gofal plant o ansawdd uchel am ddim yn gwneud gwahaniaeth mawr. Fodd bynnag, mynegodd nifer o gyfranogwyr siom nad oedden nhw'n gymwys i gael mynediad at Dechrau'n Deg, gyda llawer o gyfeiriadau at "loteri cod post", wrth drafod y meini prawf cymhwysedd.

Yn debyg i'r Cynnig Gofal Plant, amrywiol oedd yr ymwybyddiaeth ynghylch Dechrau'n Deg a'i feini prawf cymhwysedd.

Oriau agor

"Fe fyddwn i'n dweud bod hyblygrwydd yn bwysig iawn. Ddylai gofal plant ddim fod ar agor rhwng 9 a 5 yn unig i ddarparu ar gyfer y bobl sy'n gweithio yn y swyddfeydd. Mae'n rhaid iddyn nhw ddeall bod ganddyn nhw bobl sydd â mathau eraill o swyddi sy hefyd yn bwysig iawn."

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws 8, Wrecsam

Roedd llawer o gyfranogwyr yn ystyried bod yr amseroedd agor ar gyfer darpariaeth gofal plant ffurfiol yn rhwystr i fynd i fyd gwaith, cynnal cyflogaeth neu wneud cynnydd mewn swydd. Roedd amseroedd gollwng a chasglu wnaeth fethu diwallu anghenion rhieni â phatrymau gwaith gwahanol, yn golygu bod rhai yn dibynnu ar deulu neu ffrindiau i lenwi'r bwlch o ran anghenion gofal plant.

Rhannodd un cyfranogwr – sef mam sengl sy'n gweithio amser llawn mewn swydd academaidd gyda phlentyn mewn meithrinfa breifat – yr heriau yr oedd hi'n eu hwynebu mewn rôl, a oedd, trwy ei chyfaddefiad ei hun, yn gymharol hyblyg. Rhannwyd profiadau tebyg gan gyfranogwyr eraill.

“Mae fy un i'n cau ei drysau am 6:00pm felly heno, er enghraifft, roeddwn i'n darlithio tan 5 a does 'na'r un ffordd y byddwn i wedi cyrraedd y feithrinfa am 6:00pm felly roedd yn rhaid i fy chwaer godi fy merch a dod â hi adref i mi, ac erbyn hyn mae fy mam yn gofalu amdani i lawr y grisiau...”

Cyfranogwr 3, grŵp ffocws 6, Caerdydd

Cefnogaeth gan gyflogwyr

Esboniodd rhieni sy'n gweithio, tra bod gan eu cyflogwr, o bosibl, bolisiau ar waith sydd wedi'u cynllunio i gefnogi anghenion rhieni sy'n gweithio, roedd effeithiolrwydd polisiau o'r fath ar waith yn aml yn dibynnu ar agwedd rheolwyr llinell at ofal plant.

“Rwy wedi bod yn ôl yn y gwaith ers tua chwe mis erbyn hyn ac o'r farn bod gen i lawer o bryder oherwydd mae'r modd y byddwch chi'n ail-gynefino â'r gwaith yn dibynnu mewn gwirionedd ar ba mor hyblyg y mae'ch cyflogwr yn barod i fod gyda chi... Rwy wedi bod yn ddigon ffodus, mae fy nghyflogwr wedi gallu bod yn hyblyg... ond rwy hefyd yn teimlo fy mod i yn y fantol oherwydd os yw fy rheolwr llinell yn newid ac yn un sy'n penderfynu na all nhw fod mor agored i fy anghenion, mae hynny'n peri pryder mawr.”

Cyfranogwr 3, grŵp ffocws 6, Caerdydd

Roedd rhai cyfranogwyr hefyd o'r farn bod cyflogwyr y sector cyhoeddus yn cydymdeimlo'n fwy ag anghenion rhieni, gyda rhai cyfranogwyr mewn un grŵp ffocws wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i adael rolau yn y sector preifat er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd yng nghyflogaeth y sector cyhoeddus.

Croesawodd llawer o'r cyfranogwyr y mentrau gweithio hyblyg y cawsant eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil y pandemig.

“Pan ddechreuodd Covid-19, ro'n i'n gweithio gartref felly rwy'n credu bod hynni wedi bod yn brofiad cadarnhaol i mi oherwydd cefais lawer o amser gyda fy mhlant... yn ariannol, roedd yn well i mi aros gartref a gofalu am fy mhlant.”

Cyfranogwr 3, grŵp ffocws 7, Caerdydd

Er bod oriau hyblyg a gweithio gartref wedi'u nodi fel bod yn fentrau cadarnhaol ar y cyfan, roedd rhai cyfranogwyr yn awyddus i danlinellu eu cyfyngiadau wrth reoli gofal plant. Pwysleisiodd eraill, oherwydd natur eu rôl, nad oedd yn bosibl gweithio gartref a/neu oriau hyblyg.

Datblygiad gyrfa

Roedd y rhagdybiaeth gymdeithasol y byddai menywod yn gohirio eu gyrfaedd er mwyn bodloni cyfrifoldebau gofal plant yn thema a gododd yn ystod y mwyafrif o drafodaethau grŵp ffocws.

Myfyriodd nifer o'r cyfranogwyr ar golli cyfleoedd yn eu gyrfâu, tra bod eraill wedi egluro bod cost gofal plant o'i gymharu â'u cyflog a/neu botensial enillion yn golygu nad oedd yn werth dychwelyd i'r gwaith.

“Rwy i wedi gorfod gweithio fy mywyd a'm swydd o amgylch fy ngofal plant... pan na wnes i ddychwelyd i'r gwaith y tro cyntaf, cymerais doriad cyflog o £24,000 i weithio'n rhan-amser oherwydd mai hynny oedd fy unig ddewis, a hyd heddiw nid wyf yn ennill yr un arian ag yr oeddwn pan oeddwn yn feichiog, ac mae fy merch bellach yn 10.”

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws 6, Rhondda Cynon Taf

“Ro'dd y trydydd plentyn yn syndod llwyr. O'r diwedd, roeddwn i wedi cymryd swydd amser llawn. Swydd barhaol. Ro'n i'n mynd i ostwng fy oriau ac yna dau ddiwrnod cyn dechrau swydd barhaol, fe wnes i ddarganfod fy mod i'n feichiog. Byddai fy ffioedd meithrin yn unig, pe byddwn i wedi mynd yn ôl i'r gwaith, wedi bod yn £2,500 y mis. Nawr te, ry'n ni'n gwybod nad yw gweithwyr cymdeithasol yn cael llawer o arian yn cael ei dalu felly byddwn i wedi bod yn gweithio am efallai £200 - £300, a doedd hynny ddim yn cynnwys yr hyn y byddai costau ar ôl ysgol fy mab hyn wedi bod. Ro'n i'n wynebu bod yn feichiog ac yna gwybod na fyddwn yn dychwelyd i'r gwaith am gryn amser, ac erbyn hyn rwy'n dibynnu ar fudd-daliadau pan fod gennyf gymaint o botensial ar gyfer byd gwaith... mae

cael y dewis hwnnw wedi'i gymryd oddi wrthyf wedi bod yn ergyd drom i'm hunaniaeth..."

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 5, Caerdydd

Sut y gellir cefnogi rhieni'n well

Trafododd y cyfranogwyr yr atebion i rai o'r materion a godwyd a fyddai, yn eu barn hwy, yn cefnogi rhieni i gael mynediad i fyd gwaith yng Nghymru, cynnal y gyflogaeth neu wneud cynnydd yn y swydd.

Er bod nifer o atebion a/neu fentrau yn cael eu cynnig gyda gwahanol raddau o gefnogaeth, roedd y rheini y cyfeiriwyd atynt gan amlaf, neu a gafodd y gefnogaeth fwyaf, fel a ganlyn:

- Roedd yr angen am **ofal plant mwy fforddiadwy** yn cael ei ystyried yn rhywbeth o'r pwys mwyaf; cais a adleisiwyd gan gyfranogwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, o'r rheini ar incwm isel i gyfranogwyr – trwy eu cyfaddefiad eu hunain – oedd ar *"gyflogau da."*

"...dyw hi ddim yn gwneud synnwyr i mi adael fy mhlentyn gyda rhywun fel y gallaf fynd i'r gwaith a bod yn waeth fy myd... dyw hynny ddim yn anogaeth i unrhyw un i fynd yn ôl i'r gwaith oherwydd bod gofal plant mor ddrud"

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws 8, Wrecsam

- **Mwy o hyblygrwydd** gan gyflogwyr mewn gwahanol sectorau, gyda pholisïau ystyrlon i gefnogi rhieni sy'n gweithio gyda gwahanol batrymau gwaith.
- Esboniodd nifer o gyfranogwyr fod **angen mwy o wybodaeth am ofal plant**, gydag ambell un yn awgrymu y gallai ymwelwyr iechyd ei ddarparu.

"Rwy'n gwybod pan oeddwn ar gyfnod mamolaeth ac wedi bwriadu mynd yn ôl i'r gwaith, nid oeddwn yn ymwybodol o warchodwyr plant... meithrinfeydd dydd oedd ar gael yn unig ac roeddent ond ychydig y tu hwnt i'm cyllideb ar y pryd. Rwy o'r farn, felly, bod angen i lawer mwy o wybodaeth fod ar gael am yr opsiynau i rieni."

Cyfranogwr 5, grŵp ffocws 2, Pen-y-bont ar Ogwr

- **Estyniad o ran cwmpas y Cynnig Gofal Plant** a fyddai'n caniatáu i rieni gael mynediad iddo yn ôl yr angen, cyn tair oed. At hynny, roedd rhai cyfranogwyr o'r farn y dylid ymestyn ei gwmpas i gynnwys rhieni sy'n dymuno astudio er mwyn uwchsgilio ac ailymuno â byd gwaith.
- Cafwyd galw am fwy o **ddarpariaeth gofal plant yn ôl argaeledd a hyblygrwydd** - yn enwedig mewn rhai rhannau o Gymru - gyda llawer o gyfranogwyr yn egluro bod angen mwy o glybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys ehangu mynediad i Dechrau'n Deg.

“Dyw hi ddim yn dderbyniol nad oes gofal plant mewn ambell fan o fewn ardaloedd, a phan fyddwch chi'n siarad â phobl ac yn ceisio eu hargyhoeddi eu bod nhw am fynd yn ôl i'r gwaith... felly rydw i wedi gweithio ym maes cyflogadwyedd ac fe fyddan nhw'n cael y wefr hon, byddan nhw'n gwneud cwrs gyda chi ac yna'n sylweddoli na allan nhw weithio beth bynnag oherwydd does dim gofal plant, a dim ond rhwng 9 a 3 y gallan nhw weithio, ac mae'n nhw'n byw yn byw ym Mhendyrys a dyn nhw ddim yn gyrru. Yn ei hanfod, dyw hi ddim yn bosibl ac o ganlyniad bydd gyda chi genedlaethau o ddiweithdra.”

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws 6, Rhondda Cynon Taf

“Rwy wastad yn teimlo na allaf fi gael mynediad at y clwb brecwast gan ei fod wedi'i fynegi fy mod i'n cymryd rhywbeth oddi wrth blant sy'n agored i niwed. Nawr te, fyddwn i ddim yn ystyried bod fy mhlant yn agored i niwed ond mae ganddyn nhw anghenion, ac un o'u hanghenion yw bod eu mam yn gweithio. Dwyf fi ddim yn ei gyrchu'n aml, felly, rwy'n talu am fy ngofal plant, fodd bynnag, os yw fy ngofalwr plant yn sâl neu'n ddiweddar roedd ganddi Covid, felly'n amlwg roedd yn rhaid iddi gau, yna mae'n rhaid i mi gael mynediad at y pethau hyn neu fel arall, ni allaf weithio... Y disgwyl hefyd, bron â bod, yw cyn gynted ag y byddan nhw'n cyrraedd oedran ysgol uwchradd nad oes angen darpariaeth gofal plant arnyn nhw ond rwy'n anghytuno â hynny. Yn 11 oed maen nhw'n dal i fod yn blant i raddau helaeth ond i bob golwg mae hynny'n rhywbeth sy wedi'i anghofio.”

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 6, Rhondda Cynon Taf

- Roedd galwad gan rieni a'r rheini sy'n gweithio ym maes gofal plant fel ei gilydd am **gynnydd mewn cyflog a mwy o sefydlogrwydd i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector gofal plant.**

“Ry'n ni ar gontractau oriau sero ac yn gwarchod y dyfodol.”

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws 7, Caerdydd

“Mae costau gofal plant i weld mor uchel ac nid yw gweithwyr gofal plant yn cael eu talu llawer. Mae gwahaniaeth enfawr yn hynny o beth. Maen nhw'n ffurfio meddyliau'r plant hyn wrth gam hanfodol yn eu datblygiad. Gwelais yn rhywle na allai gweithiwr gofal plant fforddio rhoi ei phlentyn yn y feithrinfa y mae'n gweithio ynddi.”

Cyfranogwr 1, grŵp ffocws 5, Caerdydd

- Cafodd gwell tâl mamolaeth ac estyniad amser o ran absenoldeb **mamolaeth** eu cynnig hefyd fel atebion gan rai cyfranogwyr, i gefnogi rhieni yn well.

“Mae angen gwell tâl mamolaeth ac estyniad o ran amser i famolaeth... oherwydd mae'n gam datblygu enfawr i blant, yn aml pan fydd rhieni'n dychwelyd o absenoldeb mamolaeth. Mae angen i ni edrych ar yr awenau a gymerir gan wledydd eraill.”

Cyfranogwr 2, grŵp ffocws 5, Caerdydd